Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol ar y 7fed o Orffennaf 2022

1 Presennol – John Jones (Cadeirydd) – Garndolbenmaen, Edward Evans - Bryncir, Huw Pritchard – Pentrefelin, Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa, Richard Williams, Gwilym Evans – Prenteg, Cynghorydd Stephen Churchman.

2 Ymddiheuriadau – Clifford Williams, Mike Jones, Megan Lloyd Williams, Richard Parry, Cynghorydd June Jones.

3 Ddim yn bresennol- Dafydd Thomas.

4 Datgan buddiant – neb

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 2/6/22 Huw Pritchard yn datgan eu cywirdeb ac Edward Evans yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Etholiad 2022 - Mae Cyngor Gwynedd wedi cydnabod derbyn llythyr y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer Etholiad mis Mai ac wedi gaddo ymchwilio i'r mater.

Derbyniwyd llythyr gan Alwyn Gruffydd yn diolch am y llythyr dderbyniodd gan y Cyngor Cymuned. Adroddodd ei fod wedi bod yn bleser mynychu cyfarfodydd y Cyngor dros yr 14 mlynedd diwethaf. Dymunodd yn dda i'r Cyngor Cymuned.

7 Mynwentydd - Dim i'w adrodd.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr 66 Bryn Eithin, Garndolbenmaen heb gael ei dorri.

Llwybr Ty'n Ffridd a Ffridd Newydd – heb gael ei dorri. Giât heb gael ei ail hongian. Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Garreg Fron i Glan y Gors – angen torri ochrau'r lôn. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

9 Adroddiad Pentrefi

Garndolbenmaen

Coedwig Tan y Bryn - coeden wedi disgyn ar y llwybr wedi cael ei glirio a'r llwybrau wedi cael eu torri. Clerc i ddiolch i Goed Cadw am ei gwaith.

Bryncir

Dafarn Faig – derbyniwyd llythyr yn tynnu sylw'r Cyngor Cymuned at y trafferthion o gael mynediad i'r A487 o'r gyffordd. Penderfynwyd cyfeirio hyn at Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Dŵr yn cronni ger y bont ar y lôn gefn i'r chwith o Dafarn Faig – penderfynwyd cyfeirio hyn at yr Adran Briffyrdd ac oherwydd ei fod ar y ffin a Phlwyf Clynnog at Glerc Cyngor Cymuned Clynnog a'r Cynghorydd Dafydd Davies.

Llwch o'r chwarel ar y lôn.
Gwelliannau i'r lôn wrth Llecheiddior Uchaf.
Cynghorydd Stephen Churchman yn ymwneud a'r materion

Prenteg

Cae Chwarae Prenteg – canghennau'r coed yn tyfu i'r lôn.
Llwybr troed i gyfeiriad Aberdeunant yn flêr.
Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Adolygu cyfyngiad cyflymder ac ymestyn y llwybr troed o Brenteg at Aberdeunant - Clerc i gysylltu gyda'r Adran Draffig i ofyn am gyfarfod safle a gwahodd y Cynghorydd June Jones i fod yn bresennol.

Pentrefelin

Adroddodd y Cynghorydd Stephen Churchman ei bod yn gwneud trefniadau i wneud y gwaith canlynol ym Mryn Tyddyn -

- Glirio'r chwyn ar y llwybr troed;
- Glanhau draeniau rhif 12 ac 13;
- Glanhau cwteri rhif 5 a 6.

John Ystumllyn

Mae cwmni Harkness Roses wedi bridio rhosyn er cof am John Ystumllyn. Trafodwyd y posibilrwydd o gael rhosyn i'w blannu ger ei fedd. Clerc i wneud ymholiadau.

10 Cyfrifon 2021 - 2022

Cyflwynwyd copi o'r cyfrifon i'r Cyngor.

Taliadau yn fwy o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hyn yn rhannol oherwydd derbyniwyd grant o £12,000 gan Gyngor Gwynedd ar gyfer Cae Chwarae Penmorfa, gwariwyd £3,300 yna yn torri coed oedd wedi heintio. Cychwynnwyd ar y gwaith o wella'r ffordd at Fynwent Prenteg £4140 a gwnaethpwyd gwaith cynnal a chadw ar sied Mynwent Bethel £940.

Derbyniadau yn fwy o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Derbyniwyd grant gan Gyngor Gwynedd a bu mwy o gladdedigaethau ym Mynwentydd y Cyngor.

Derbyniwyd y cyfrifon gan y Cyngor. Cynghorydd Huw Pritchard yn cynnig a'r Cynghorydd Richard Williams yn eilio. Bydd y Ffurflen Flynyddol yn cael ei yrru at y Cadeirydd i gael ei arwyddo.

Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

11 Cyfethol Cynghorwyr

Derbyniwyd llythyrau gan Iddon Edwards Penmorfa ac Manon Jones Evans Pentrefelin yn datgan diddordeb mewn ail sefyll ar gyfer y Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd llythyr gan Sarah Jones, Pentrefelin yn dangos diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd eu gwahodd i ymuno a'r Cyngor.

12 Gohebiaeth

Llythyrau gan Gyngor Gwynedd - rhybudd cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn â Hafod Garregog, Cwm Pennant.

Rhybudd cau ffordd Dosbarth III Golan 4/7/22. Rhannwyd 23/6/22.
Rhybudd cau ffordd ddi-ddosbarth ger ffordd mynediad Bryn Melyn, Treflys. 4/7/22. Rhannwyd 23/6/22.
Prif doriad gwledig 27/6/22 am 2 wythnos.

Ychwanegwyd

Gweithdai Ardal Ni – John Jones a Gwenno Emlyn Huws am gynrychioli'r Cyngor Cymuned.

Gohebiaeth ychwanegol

Llywodraeth Cymru – Canllaw Cynghorwyr Da.

a Llywodraeth Cymru – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

b canllawiau statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.
Llywodraeth Cymru – Gorchymyn cau priffyrdd Tŷn Dwr, Garndolbenmaen.

c Cylchlythyr Chwarterol Age Cymru.

13 Cynllunio

Rhestrau 10/6, 24/06/22.

Ceisiadau Cynllunio

14 Materion Ariannol

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 347.45 (cynnydd o 1/4/21)
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 80.61
HSBC 06/05 – 05/06/22	=	£ 11.00

Rhoddion Ariannol

Cylch Meithrin y Gorlan Fach	=	£ 200.00
Tŷ Gobaith	=	£ 300.00

Ychwanegwyd

Cymru1 = £393.60

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth = £55 (debyd uniongyrchol)

Derbyniadau:

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,848.11 Cyfredol £13,164.43

15 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Cyfrifon
- Cyfethol Cynghorwyr
- Cyfarfod Blynyddol
- Dafarn Faig

Gwefan – Cofnodion mis Mehefin, Adroddiad Blynyddol, Mantolen Banc.